



GWYBODAETH GYFFREDINOL

Annwyl Arweinydd/Rhiant/Gwarcheidwad

Edrychwn ymlaen at groesawu eich plentyn/grŵp i Wersyll yr Urdd Caerdydd. Yn y ddogfen hon cewch wybodaeth am y Gwersyll fydd yn ddefnyddiol i chi er mwyn sicrhau ymweliad diogel a phleserus.

BYDD ANGEN I'CH PLENTYN DDOD Â'R CANLYNOL

1. Dillad nos, pethau ymolchi a thywel.
2. Dillad sbâr gan gynnwys siwmpwr gynnes ac anorac neu got law.
3. Pâr o esgidiau sy'n addas i gerdded
4. Llyfr nodiadau a phensil/beiro (cyrsiau yn unig).

****Sicrhewch bod enw'r plentyn ar bob dilledyn/eiddo personol.**

NI FYDD ANGEN

Sach gysgu – mae'r Gwersyll yn darparu dillad gwely. Gofynnwn i chi ofyn i'r plant i beidio a dod ag eiddo personol megis ipods, ffonau clyfar, gemau fideo ac ati. Os digwydd i blentyn ddod â chyllell boced i'r Gwersyll byddwn yn eu casglu ar ddechrau'r cwrs hyd nes bod y plentyn yn ymadael. Gallwn gadw eitemau megis pasbort, arian, camerâu yn ein sêff os oes angen.

****Noder nad yw'r Gwersyll yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am eiddo personol.**

YSTAFELLOEDD

Mae 29 ystafell wely yn y Gwersyll gyda'r mwyafrif yn cysgu hyd at 6 o bobol. Ceir ystafell ymolchi a gwres canolog ymhob ystafell. Bydd arweinydd y grŵp yn penderfynu ar bwy fydd yn rhannu ystafell gyda'r gilydd. Y plant fydd yn gyfrifol am wneud eu gwelyau a thacluso'r ystafell. Ar ddechrau'r cwrs bydd staff y Gwersyll yn sicrhau bod pob plentyn yn gwybod ble i fynd mewn argyfwng a lle gellir canfod cymorth yn ystod y nos.

BWYD

Mae'r Gwersyll yn darparu tri pryd bwyd y dydd - brecwast, cinio, a swper. Canolfan y Mileniwm sy'n gyfrifol am ddarparu ein gwasanaeth arlwyyo, felly os oes gan eich plentyn anghenion arbennig e.e. alergedd i gnau, diet gluten free, diabetig, dim cynnyrch llaeth, **rhoch wybod inni pythefnos ymlaen llaw fel y gallwn drefnu bwydlen addas.**

Cofiwch nodi hyn ar y Ffurflen lechyd hefyd. Rydym yn cynnig bwydlen sy'n addas i lysieuwyr. Mae diodydd ar gael i'w prynu ac mae ffynnon ddŵr ar gael trwy gydol y dydd.

FFÔN

Apeliwn arnoch i beidio trefnu i'r plant ffonio adref yn ystod yr ymweliad. Oni bai y clywch oddi wrthym fe fyddwch yn gwybod bod y plant yn iach ac yn mwynhau. Gallwn eich sicrhau os bydd angen cysylltu â'r rhieni/gwarchodwr (e.e. salwch neu hiraeth drwg) fe fyddwn yn gwneud hynny'n syth. Os ydych eisiau anfon neges at eich plentyn gallwch wneud hynny trwy swyddfa'r Gwersyll ((029) 20635678) neu e-bost (caerdydd@urdd.org). Bydd y Rheolwr ar Ddyletswydd yn hapus i drosglwyddo'ch neges.

GOFAL/DIOGELWCH

Arweinydd y cwrs/grŵp fydd yn trefnu'r cwrs gyda chymorth Staff Rheoli'r Gwersyll. Rydym yn sicrhau bod y plant yn gwybod ble i droi mewn argyfwng - mae yna rywun ar gael trwy gydol yr amser, ddydd a nos. Mae gwyliwr nos ar ddyletswydd trwy'r nos. Yn ogystal, mae camerâu diogelwch wedi eu lleoli o gwmpas y Gwersyll. Mae gan bob ystafell a choridor preswyllo glo ar gerdyn electronig unigryw er mwyn sicrhau diogelwch. Mae pob aelod o staff y Ganolfan wedi derbyn archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Fel safleoedd sydd wedi eu cynllunio a'u datblygu er lles plant a phobl ifanc, disgwylir i oedolion ymddwyn yn briodol yng Ngwersylloedd yr Urdd ar bob adeg. Disgwylir i'r arweinydd sicrhau cymhareb o 1:10 o oedolion ar gyfer ymweliadau oed cynradd, a chymhareb o 1:15 ar gyfer ymweliadau oed uwchradd, sydd yn gallu bod ar gael ar unrhyw adeg i yrru plentyn i ysbyty neu i ddangos arweiniad ar unrhyw adeg o argyfwng. Disgwylir i oedolion sydd mewn sefyllfa o gyfrifoldeb ddilyn canllawiau eu cyflogwyr o ran canllawiau ymddygiad tra yn gofalu am blant a phobl ifanc.

SALWCH A DAMWEINIAU

Mae aelod o staff â chymhwyster Cymorth Cyntaf llawn ar ddyletswydd 24 awr. Mae gennym ganllawiau a pholisïau pendant a manwl ar gyfer pob agwedd o waith y Gwersyll. Mae copïau ar gael i unrhyw un eu gweld.

DISGYBLAETH

Er mwyn sicrhau rhediad esmwyth a hwylus y Gwersyll mae angen nifer o reolau syml synhwyrol. Esbonnir y rheolau hyn i'r plant ar ôl iddynt gyrraedd ac fe'u gweithredir mewn ffordd deg ac yn yr ysbryd cywir fel y gallwn sicrhau ymweliad hapus i bawb. Os bydd gwersyllwyr yn dewis anwybyddu'r rheolau hyn mae gan y Gwersyll hawl i'w diarddel yn syth. Noder na roddir ad-daliad mewn achos o ddiarddel.

PROBLEMAU

Gofynnwn i chi sicrhau y bydd plentyn yn ymweld â Swyddfa'r Gwersyll yn ddiymdroi pe bai ganddo/ganddi unrhyw broblem fel y gellir delio â'r mater ar unwaith.

TYSTYSGRIFAU IECHYD

Mae'n hanfodol bod pob rhiant/gwarchodwr wedi cwblhau **TYSTYSGRIF IECHYD** ar gyfer pob plentyn a bod copi ar gael i arweinydd y cwrs. Gall hwn gynnwys manylion unrhyw afiechyd, neu sylwadau am unrhyw broblem y mae'r plentyn yn dioddef ohono, a rhif ffôn pe bai angen cysylltu â'r rhieni/gwarchodwr.

YMARFER TÂN

Cynhelir hyfforddiant tân ar y noson gyntaf fel bod pob plentyn yn gyfarwydd â'r allanfeydd tân a'r manau ymgynnull mewn argyfwng. Nodir fod Gwersyll yr Urdd Caerdydd yn safle ddi-fwng.

LLUNIAU

Gall luniau o'r gweithgareddau gael eu defnyddio ar ein safle gwe ac mewn taflenni hysbysebu. Os nad ydych am eich plentyn fod mewn llun nodwch hynny ar y ffurflen iechyd.

YSWIRIANT

Mae gan yr Urdd yswiriant trydydd parti am £20 miliwn rhag unrhyw esgeulustod ar ran trefniadau yr Urdd. Nid yw yswiriant personol i wersyllwyr yn gynnwysedig yn y tâl gwersyll a disgwylir i arweinwyr y grŵp drefnu yswiriant gohirio. Dylai rhieni wneud trefniadau eu hunain os ydynt yn dymuno polisi rhag damwain, salwch, colli eiddo ac ati.

CWYNION

Os oes unrhyw ymholiad gennych am drefniant y Gwersyll neu unrhyw broblem a gododd yn ystod yr arhosiad sydd heb ei ddelio gyda ar y pryd, cysylltwch â ni ar unwaith.

Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu eich plentyn i Wersyll yr Urdd Caerdydd. Rydym yn sicr y byddant yn mwynhau ac yn elwa'n fawr o'r profiad o aros mewn canolfan breswyl o'r radd flaenaf.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am y Gwersyll byddwn yn falch iawn i'w ateb. Ffoniwch ar 029 20635678.

Tim Edwards
Llinos Huws
Lisa Evans
Tudur Rees

Gwersyll yr Urdd Caerdydd, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd. CF10 5AL

Ffôn: 029 20635678 **Ffacs:** 029 20635679 **E-bost:** caerdydd@urdd.org **Safle'r Wê:** <http://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/>